

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Sir Gaerfyrddin

Adroddiad Asesu Blynyddol 2017-18

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Sir Gaerfyrddin i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Roedd Sir Gaerfyrddin wedi cyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 10 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, roedd Sir Gaerfyrddin wedi cyflawni 9 yn llawn, ac 1 yn rhannol.

Mae gwasanaeth llyfrgell Sir Gaerfyrddin yn parhau i berfformio'n dda, gan fod â gwelliannau mewn rhai meysydd, a thystiolaeth o ddirywiad mewn eraill. Pe byddai'r datganiad yn cynnwys rhywfaint o ddadansoddi ar y ffactorau sydd wedi dylanwadu ar y meysydd sydd wedi newid, byddai modd deall yn well beth y mae hyn yn ei olygu i berfformiad yn y dyfodol. Er hynny, mae'r awdurdod yn dangos ymrwymiad cryf i'r gwasanaeth, gyda chyllidebau wedi'u cynnal a hyd yn oed wedi cynyddu ers 2016-17, a lefelau staff cymwysedig wedi'u cadw. Nodir cynigion i ailffurfio strwythurau staff, ond y caiff hyn ei wneud yng nghyd-destun sicrhau y gellir cynnal safonau a bod staffio yn gyson â datblygu gwasanaethau. Mae Strategaeth Llyfrgell 2017-2022 yn rhoi'r fframwaith ar gyfer gweithredu yn y dyfodol, ac mae datblygiadau diweddar, megis lansio'r cyfleuster 'Stordy Creadigol' yn llyfrgell Rhydaman, yn cynnig model ar gyfer cydbwysio darpariaeth draddodiadol a digidol.

- Cyflwynodd Sir Gaerfyrddin bedair astudiaeth achos yn dangos effaith gadarnhaol y gwasanaeth. Roedd 96% o'r plant a holwyd o'r farn fod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu.
- Cynyddodd y nifer sy'n mynychu hyfforddiant defnyddwyr wedi'i drefnu ymlaen llaw, ond bu gostyngiad sylweddol yn y nifer a gafodd gymorth trwy hyfforddiant anffurfiol, er bod perfformiad Sir Gaerfyrddin yn hyn o beth yn dal i fod yr uchaf yng Nghymru.
- Cafwyd gostyngiad yn lefelau'r defnydd ar rai elfennau, gan gynnwys ymweliadau corfforol, benthyciadau llyfrau, benthycwyr gweithredol ac aelodaeth llyfrgell, er bod Sir Gaerfyrddin yn dal i fod ymysg y perfformwyr gorau ar gyfer ymweliadau corfforol fesul pen y boblogaeth a benthyciadau llyfrau i oedolion.
- Mae buddsoddi mewn deunydd darllen cyfoes yn parhau'n gryf, a Sir Gaerfyrddin yn cofnodi'r gwariant uchaf ar dderbyniadau o blith holl wasanaethau llyfrgell Cymru.
- Mae'r ddarpariaeth cyfrifiaduron wedi cynyddu ymhellach yn 2017-18 ac erbyn hyn dyma'r trydydd uchaf yng Nghymru, er bod lefelau'r defnydd arnynt yn parhau i fod yn isel.
- Mae nifer y staff cyffredinol wedi gostwng ychydig, ond maent yn uwch na'r canolrif, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i gyrraedd y targed ar gyfer staff â chymwysterau.
- Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu o gymharu â 2016-17, gyda Sir Gaerfyrddin bellach yn gwario mwy fesul pen y boblogaeth ar ddarpariaeth llyfrgell nag

unrhyw awdurdod arall.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau, a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn, ac Adran 3 yn rhoi asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod.

2.1 Hawliau craidd

Mae Sir Gaerfyrddin yn cyflawni'r 12 hawl graidd yn llawn. Mae ethos cryf o weithio mewn partneriaeth yn cyfrannu at gyflawni sawl maes, gydag ystod o bartneriaid yn cefnogi hyrwyddo a darparu gwasanaethau i gymunedau lleol. Mae'r gwasanaeth yn rhan o Cat Cymru ac yn bwriadu ymuno â'r system rheoli llyfrgell (LMS) newydd ar gyfer Cymru gyfan erbyn Ebrill 2019. Mae cynllun marchnata a chyfathrebu blynyddol ar waith, gyda chyllideb benodol i gefnogi darpariaeth, a staff penodol ym mhob llyfrgell ranbarthol i hyrwyddo'r gwasanaeth. Mae gweledigaeth Sir Gaerfyrddin ar gyfer ei wasanaeth llyfrgell wedi'i nodi yn ei Strategaeth Llyfrgell 2017-2022, sef strategaeth bum mlynedd a ddatblygwyd yn seiliedig ar arolygon cwsmeriaid a gynhaliwyd yn 2016 a 2017.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Sir Gaerfyrddin yn cyflawni 9 yn llawn, ac 1 yn rhannol.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?
DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:	Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	✓
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	✓
c) Cymorth e-lywodraeth	✓
d) Datblygu darllenwyr	✓
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles	Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	✓
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	✓
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	✓
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd iach o fyw	✓
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	✓
DA 6 Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	✓ Cyflawni'n llawn
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	✓ Cyflawni'n llawn
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol	Cyflawni'n llawn
Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	✓
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	✓
DA 10 Adnoddau Cymraeg	Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	✓
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	x

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 11 Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwyd	✓	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	✓	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	✓	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	✓	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen y boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth	✓	
iii) Cymhwyster/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓	
iv) Canran DPP	✓	
DA 16 Oriau agor fesul pen y boblogaeth	✓	Cyflawni'n llawn

Ni fu newid ym mherfformiad Sir Gaerfyrddin o'i gymharu â blwyddyn olaf y pumed fframwaith o ran y dangosyddion ansawdd hynny y mae modd eu cymharu'n uniongyrchol.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei gael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1. Mae'r ffigyrau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod y flwyddyn gyntaf hon o'r fframwaith. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd Sir Gaerfyrddin ei arolwg defnyddwyr plant ym mis Hydref 2017 ac nid yw eto wedi cynnal arolwg oedolion yn y fframwaith hwn.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	96%	2/6	73%	94%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	<i>amherthnasol</i>		38%	90%	95%
DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	98%	4/17	75%	98%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i gael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Sir Gaerfyrddin bedair astudiaeth achos o'r fath, er y gellid wedi cynnwys gwell tystiolaeth o'r effaith ar yr unigolion perthnasol yn rhai ohonynt:

- Diwrnodau Mynd am Dro i'r Llyfrgell – cyflwyno plant o ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig i'r adnoddau a'r gwasanaethau sydd ar gael; hyrwyddo aelodaeth llyfrgell a chefnogi sgiliau darllen/llythrennedd, trwy drefnu ymweliadau â'r llyfrgell sy'n

cynnwys amrywiaeth o weithgareddau hwyl.

- Cystadleuaeth Iechyd – hyrwyddo rôl y llyfrgell yn cefnogi iechyd a lles. Cynhaliodd y gwasanaeth gystadleuaeth i blant lunio posteri, straeon neu gerddi am beryglon deiet sydd â llawer o siwgr ynddo, ynghyd ag achlysur gwobrwyo ac arddangosfa deithiol o waith y plant.
- Blwyddyn Newydd, Bywyd Newydd – digwyddiad blasu mewn partneriaeth â busnesau lleol, yn cefnogi gwaith iechyd a lles, a hyrwyddo casgliadau / gwasanaethau'r llyfrgell.
- Cynulleidfaoedd Addysg Bellach – cyrraedd cynulleidfaoedd newydd, hyrwyddo gwasanaethau ar-lein / cynhwysiant digidol; cymerodd y llyfrgell ran yn wythnos Ffair y Glas Coleg Sir Gâr – cofrestrodd 150 o fyfyrwyr yn aelodau o'r llyfrgell a'r defnydd ar adnoddau ar-lein wedi codi yn dilyn hynny.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2017-18. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Pan fo modd, mae ffigyrau a roddwyd ar gyfer blwyddyn olaf y pumed fframwaith hefyd wedi'u cynnwys er hwylustod cymharu; fodd bynnag, mewn rhai achosion mae newid yn y diffiniad neu gyflwyno mesurau ychwanegol yn golygu nad yw cymharu yn ymarferol. Mae dangosyddion 'fesul pen y boblogaeth' wedi'u cyfrifo fesul 1,000 y boblogaeth, oni nodir yn wahanol.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2016/17
DA 1 Gwneud gwahaniaeth						
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd:	<i>amherthnasol</i>		24%	83%	94%	86%
c) iechyd a lles	<i>amherthnasol</i>		33%	65%	95%	85%
d) lle diogel a chroesawgar	<i>amherthnasol</i>		90%	98%	100%	98%
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid						
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	<i>amherthnasol</i>		88%	91%	98%	90%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	<i>amherthnasol</i>		93%	99%	100%	95%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	<i>amherthnasol</i>		74%	86%	94%	
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	<i>amherthnasol</i>		93%	97%	99%	95%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	9.1	2/6	8.5	9.1	9.2	8.7
DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr						
a) mynychwyr fesul pen	60	7/22	10	32	238	54
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen	473	1/22	15	199	473	712
DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen y boblogaeth	245	11/22	82	228	684	218
DA 8 Defnyddio'r llyfrgell						
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	6,137	2/22	2,501	4,047	7,014	6,171
b) rhith-ymweliadau fesul pen	1,539	3/22	243	866	2,211	1,476
c) benthychwyr gweithredol fesul pen	155	10/22	100	154	229	190

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2016/17
DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen *	213	5/22	4	68	663	
DA 11 Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron fesul pen ^	12	3/22	5	9	14	11
c) % yr amser ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	20%	18/22	14%	27%	67%	22%
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau						
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	16	17/21	3	31	196	23
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	1,206	12/21	40	1,346	11,939	1,398
DA 14 Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£17,771	1/21	£7,047	£11,915	£17,771	£16,271
b) % ar staff	48%	20/21	44%	63%	75%	47%
% ar adnoddau gwybodaeth	14%	8/21	4%	13%	25%	15%
% ar offer ac adeiladau	3%	14/21	0%	4%	20%	2%
% ar gostau gweithredol eraill;	34%	3/21	0%	18%	37%	36%
c) gwariant cyfalaf fesul pen	£0	14/20	£0	£338	£17,432	£0
DA 15 Cost net am bob ymweliad	£1.25	20/21	£1.24	£1.82	£2.41	£2.07
DA 16 Oriau agor#						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.06%	15/21	0.00%	0.02%	1.28%	0.16%
b) % arosfannau llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	2.95%	16/20	0.00%	0.35%	11.24%	0.99%

* fesul pen y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg

^ am bob 10,000 o'r boblogaeth breswyl

Mae'r safleoedd yma wedi'u troi o chwith, sef mai 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf (perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad (pan fo'n berthnasol) â rhai blwyddyn olaf y pumed fframwaith (2016-17).

3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Cynhaliodd Sir Gaerfyrddin arolwg defnyddwyr plant yn ystod mis Hydref / Tachwedd 2017 dros wythnos yn ystod tymor yr ysgol a'r gwyliau hanner tymor. Roedd 96% o blant o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau, a dyfarnwyd sgôr gyffredinol o 9.1 allan o 10 i'r llyfrgell, a'r ddau yn welliant ar ganlyniadau'r arolwg o dan y pumed fframwaith. Mae'r holl lyfrgelloedd sefydlog yn darparu'r ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, ac mae iechyd a lles hefyd yn cael cefnogaeth dda. Er mai cynyddu wnaeth y nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddi defnyddwyr wedi'u trefnu ymlaen llaw, gostwng o tua thraean wnaeth y nifer sy'n cael cymorth trwy hyfforddiant anffurfiol. Mae hwn yn ostyngiad sylweddol ers 2016-17, er bod perfformiad Sir Gaerfyrddin yn y maes hwn yn dal i fod yr uchaf yng Nghymru – byddai rhywfaint o ystyried y ffactorau sydd ar waith yma wedi bod yn ychwanegiad defnyddiol.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Sir Gaerfyrddin yn parhau i gyrraedd y targed ar gyfer mynediad rhwydd i fannau

gwasanaeth, gyda 12 o fannau gwasanaeth sefydlog ar agor 10+ awr yr wythnos, gan wasanaethu ardal sydd â phoblogaeth gymharol wasgaredig. Mae cyfraddau'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau a drefnir gan y llyfrgell wedi parhau i gynyddu, er bod y defnydd a adroddir mewn meysydd eraill yn llai cadarnhaol. Mae niferoedd yr ymwelwyr, benthyciadau llyfrau, nifer y benthycwyr gweithredol ac aelodaeth llyfrgell oll wedi gostwng yn 2017-18, er bod ymweliadau corfforol fesul pen y boblogaeth yn dal yr ail uchaf yng Nghymru ac nid oedd unrhyw wasanaeth llyfrgell arall wedi cofnodi mwy o fenthyciadau llyfrau i oedolion. Mae Sir Gaerfyrddin hefyd yn un o chwech yn unig o wasanaethau llyfrgell sydd wedi adrodd am gynnydd yn nifer y rhith-ymweliadau.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Mae'r awdurdod yn parhau i fuddsoddi'n gryf mewn deunyddiau darllen cyfoes, gyda'r gwariant ar dderbyniadau yr uchaf fesul pen y boblogaeth ymysg holl wasanaethau llyfrgell Cymru. Codi hefyd wnaeth y gyllideb a ddyrennir i adnoddau plant ac i ddeunydd yn y Gymraeg, a'r perfformiad yn y meysydd hyn wedi'i gynnal, ac mae DA 9 a 10 wedi'u cyflawni'n llawn. Mae'r buddsoddi yn y stoc lyfrau wedi'i adlewyrchu yn nifer uchel y benthyciadau llyfrau oedolion, a'r benthyciadau adnoddau Cymraeg sy'n uwch na'r cyfartaledd. Mae'r ddarpariaeth cyfrifiaduron wedi cynyddu ymhellach ac erbyn hyn dyma'r trydydd uchaf yng Nghymru, er bod cyfraddau'r defnydd arnynt yn parhau i fod yn isel. Mae perfformiad mewn perthynas â chyflenwi ceisiadau wedi gostwng ychydig, ond mae gofynion DA 12 yn dal i gael eu cyflawni.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae nifer y staff cyffredinol wedi gostwng eto eleni, ond maent yn uwch na'r canolrif, er bod y gwasanaeth yn methu â chyrraedd y targed ar gyfer staff fesul pen y boblogaeth. Fodd bynnag, mae nifer y staff cymwysedig wedi'u cadw ar lefelau 2016-17, gyda'r gwasanaeth yn un o saith yn unig i gyrraedd y targed a bennwyd yn y maes hwn. Mae yma arweinyddiaeth â chymwysterau, ac mae'r gwasanaeth wedi gwella ei fuddsoddiad mewn hyfforddiant / datblygiad staff, er ar lefel ychydig yn is na chynt. Mae nifer y gwirfoddolwyr hefyd wedi parhau i ostwng, gyda 16 o wirfoddolwyr yn cyfrannu 75 awr yr un ar gyfartaledd i'r gwasanaeth.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu o gymharu â 2016-17, gyda Sir Gaerfyrddin bellach yn gwario mwy fesul pen y boblogaeth ar ddarpariaeth llyfrgell nag unrhyw awdurdod arall. Mae oriau agor fodd bynnag wedi gostwng ychydig, ac maent bellach ar lefel y targed; yr awdurdod yw un o bedwar yn unig sydd wedi cofnodi oriau agor heb staff fel rhan o'i ddarpariaeth.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad blynyddol, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Nid yw naratif Sir Gaerfyrddin yn gwneud cysylltiadau uniongyrchol â'r cyd-destun strategol cenedlaethol, gan ganolbwyntio yn hytrach ar y weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth ei hun, a datblygu'r cyfleuster 'Stordy Creadigol' (Makerspace) yn Llyfrgell Rhydaman. Yn y weledigaeth hon mae'n amlwg fod nifer o aliniadau â nodau strategol ehangach – cefnogi'r agenda digidol, datblygu sgiliau, ymgysylltu â'r gymuned ac entrepreneuriaeth – ond byddai wedi bod yn briodol cael ffocws mwy penodol ar gyfraniad

y gwasanaeth yn hyn o beth.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ganlynol, adroddodd Sir Gaerfyrddin sut y mae'n ceisio gweithio o fewn ei bum cynnig cyffredinol i ateb anghenion ei gwsmeriaid ac ymgysylltu â defnyddwyr a chynulleidfaoedd newydd. Nodir bod datblygiad 'Stordy Creadigol' Rhydaman yn lasbrint ar gyfer datblygu digidol yn y dyfodol ledled llyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin, er na fanylir ynghylch unrhyw gynlluniau penodol yn y cyswllt hwn. Cyfeirir at waith i ddatblygu'r gwasanaeth llyfrgell teithiol presennol, gan gynnwys newidiadau i wella a chryfhau'r ddarpariaeth. Nodir cynigion i ailalinio strwythurau staffio i sicrhau cysondeb â datblygiadau ym meysydd gwasanaeth, a gwaith eisoes ar y gweill i uno'r Gwasanaeth Cyfeirio Llyfrgelloedd Cyhoeddus a'r Archifau.

6 Casgliad

Mae gwasanaeth llyfrgell Sir Gaerfyrddin yn parhau i berfformio'n dda, gan fod â gwelliannau mewn rhai meysydd, a thystiolaeth o ddirywiad mewn eraill. Pe byddai'r datganiad yn cynnwys rhywfaint o ddadansoddi ar y ffactorau sydd wedi dylanwadu ar y meysydd sydd wedi newid, byddai modd deall yn well beth y mae hyn yn ei olygu i berfformiad yn y dyfodol. Er hynny, mae'r awdurdod yn dangos ymrwymiad cryf i'r gwasanaeth, gyda chyllidebau wedi'u cynnal a hyd yn oed wedi cynyddu ers 2016-17, a lefelau staff cymwysedig wedi'u cadw. Nodir cynigion i ailffurfio strwythurau staff, ond y caiff hyn ei wneud yng nghyd-destun sicrhau y gellir cynnal safonau a bod staffio yn gyson â datblygu gwasanaethau. Mae Strategaeth Llyfrgell 2017-2022 yn rhoi'r fframwaith ar gyfer gweithredu yn y dyfodol, ac mae datblygiadau diweddar, megis lansio'r cyfleuster 'Stordy Creadigol' yn llyfrgell Rhydaman, yn cynnig model ar gyfer cydbwysu darpariaeth draddodiadol a digidol.